

Gweithio er Iles

Sut mae Cymdeithas Tai Eryri'n canolbwyntio ar anghenion tenantiaid a chymunedau.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Dylan Williams – Trydanwr Cymdeithas Tai Eryri.

Trosolwg

Landlord cymdeithasol cofrestredig yw Cymdeithas Tai Eryri a rhoi cymunedau a lles wrth galon ei gweithrediadau fu ei hanes erioed. Caiff ei chydabod fel mudiad arloesol ac mae'n addasu'n gyson yn ôl anghenion a galwadau sy'n newid er mwyn cael sicrwydd ariannol tra'n darparu cartrefi fforddiadwy, cynnes ar gyfer ei thenantiaid, a hynny mewn llefydd y maen nhw eisiau byw ynddynt. Mewn blynyddoedd diweddar, plethwyd yr angen i addasu at heriau prisiau ynni a newid hinsawdd i mewn i'w chynllun corfforaethol, oherwydd fe fydd symud y rhain yn eu blaenau, yn anochel, yn effeithio ar ei thai a lles ei thenantiaid.

Canlyniadau

Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru

Tystiolaeth

Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth

Cydweithio

Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau

Hir dymor

Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau

Cysylltu

Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

Tryloywder

Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>



Cefndir

Menter gymdeithasol yw Cymdeithas Tai Eryri a bu'n gweithredu ar draws Gwynedd ac Ynys Môn ers dros 30 mlynedd fel landlord cymdeithasol sy'n darparu tai fforddiadwy mewn ymateb i anghenion lleol. Mae'n cynnig cefnogaeth i bobl fregus ac yn ceisio gostwng anfantais gymdeithasol tra'n cyfrannu at adfywiad cymunedau a chynnal yr Iaith Gymraeg. Mae'r mudiad yn cyflogi 100 o bobl, mae ganddo 1600 o gartrefi a throsiant blynyddol o £7.5m. Cydweithia Cymdeithas Tai Eryri'n agos gyda'r awdurdodau lleol, mentrau cymdeithasol eraill, grwpiau cymunedol, y sector preifat a Llywodraeth Cymru.

Gyrwyr

Fel nifer o gymdeithasau tai yng Nghymru, ganed Cymdeithas Tai Eryri o bryder lleol ynghylch tai fforddiadwy ond hefyd dyhead unigryw i gynnal yr iaith Gymraeg yn yr ardal. Felly, er na roddwyd y teitl 'cynaliadwyedd' ar y gwaith ar y pryd, o'r cychwyn cyntaf roedd ffocws Cymdeithas Tai Eryri ar greu cymunedau cynaliadwy.

Pwysleisia Rheolwr Mentrau Cymunedol, Dewi Llwyd Evans, bwysigrwydd canlyniadau cynaliadwy, 'nid oes diben cael tai o safon uchel os ydyn nhw mewn cymunedau nad yw pobl am fyw ynddynt ac os nad ydynt yn gynaliadwy ynddynt eu hunain'. Fel rhan o'i gwaith, mae Cymdeithas Tai Eryri'n ceisio darparu gwaith a chyfleoedd ar gyfer pobl ddi-waith a'r rheiny sy'n agored i niwed. Mae'n edrych yn ofalus ar ei chyfraniad at yr economi lleol o ran gwariant, contractio, caffaeliad, datblygu cynaliadwy a ffocws ar ei llinell waelod driphlyg, sef lles cymdeithasol, yr economi a'r amgylchedd.

Mae Cymdeithas Tai Eryri hefyd yn gweld bod ambell sbardun a lifer statudol o gyfeiriad Llywodraeth Cymru, Ewrop a'r sector tai ac adeiladu yn ei helpu i ganolbwyntio ar y canlyniadau cywir. Soniodd Dewi Llwyd Evans am bwysigrwydd egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth sicrhau nawdd, "Os ydych chi'n mynd at y cyllidwyr, yn amlwg mae angen i chi fod â dealltwriaeth o'r pethau hynny."

Ymagwedd

Mae Cymdeithas Tai Eryri yn meddwl am gynllunio ar gyfer canlyniadau cynaliadwy o'r cychwyn cyntaf.

Yn ei chynllun busnes cyfredol ar gyfer 2012-2015, mae gan Cymdeithas Tai Eryri 3 blaenoriaeth graidd:

- Datblygu Asedau Cymunedol – darparu asedau cymunedol cynaliadwy o ansawdd uchel er budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- Cefnogi Gwasanaethau Lleol – annog gweithredu cymunedol ac entrepreneuriaeth gymdeithasol er mwyn cynnal gwasanaethau lleol
- Llywodraethu a Rheolaeth Dda – sicrhau llywodraethu effeithiol ac ymarferoldeb ariannol ar gyfer y busnes a phrosiectau

Dan bob blaenoriaeth, nodir amcanion strategol penodol y gellir dod o hyd iddynt yn ei chynllun corfforaethol. Maen nhw'n gwybod ei bod yn hanfodol iddynt fod yn annibynnol yn ariannol, tra'n darparu cartrefi cyffyrddus a chynnes ar gyfer eu tenantiaid ac yn gostwng eu hól troed ecolegol a charbon, ac mae hon yn elfen bwysig.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Er mwyn trosglwyddo'i hamcanion, mae gweithio ar draws adrannau yn rhan o'r hyn y mae'n ei wneud. Er enghraifft, mae'r ffrwd gwaith ar gyfer gostwng carbon yn dod â phobl o bob rhan o'r mudiad at ei gilydd i gytuno ar gynllun gwaith blynyddol, gyda thua 10 cyfarfod y flwyddyn ac adroddiadau chwarterol gerbron y byrddau. O fewn hyn, enwebwyd cydlynedd ac aelod o'r bwrdd sy'n hyrwyddo'r gostyngiad mewn carbon ac yn sicrhau bod yna gynnydd.

O ran tracio'r canlyniadau, mae Cymdeithas Tai Eryri eisoes yn casglu adborth ac yn monitro ymddygiad tenantiaid fel rhan o'i hunanasesiad ar gyfer Llywodraeth Cymru ble mae'r amcanion CAMPUS a gynlluniwyd yn y cynllun corfforaethol yn bwydo'r cylch adrodd. Er hyn, mae Dewi Llwyd Evans yn dal i gydnabod yr angen i wella ansawdd yr wybodaeth sy'n dod i law, "gallwn osod yr holl gyfarpar a chodi perfformiad y tî i safon lawer yn uwch, ond efallai na fydd y tenant ei hun yn gweld y fantais ariannol. Mae angen ymagwedd fwy ansoddol, gan edrych i weld a yw'r tenant yn gynhesach, yn hapusach a, gobeithio, yn well ei fyd." Nawr, mae'n gweithio gyda Phrifysgol Bangor i fonitro gosodiadau a phrofiadau tenantiaid ac i weld os yw'r buddsoddiad yn cael yr effaith yr oedd yn gobeithio amdani.

Canlyniadau

Fe fu Cymdeithas Tai Eryri ar drywydd tir newydd gyda llawer o'i gwaith. Mae ganddi fodel caffael arloesol sy'n defnyddio cymalau cynhwysiant cymdeithasol, hi oedd y landlord cymdeithasol cyntaf yng ngogledd Cymru i adeiladu Cartrefi

Code lefel 4 a hi erbyn hyn yw'r cyntaf i ddechrau adeiladu tai passivhaus. Gwelir Cymdeithas Tai Eryri fel arweinydd yn y maes.

Rhwystrau

Mae cylchoedd nawdd yn her i'r mudiad. Mae prosiectau sy'n dibynnu ar nawdd yn anodd iawn eu symud yn eu blaenau yn y tymor hir ac, yn aml, yn colli momentwm. Mae Cymdeithas Tai Eryri nawr yn canolbwyntio'n fwy ar fecanweithiau nawdd cynaliadwy a ffyrdd o ariannu eu prosiectau eu hunain trwy gynlluniau fel eu [rhaglen i osod nodweddion newydd ar hen systemau](#) a modelau mentrau cymdeithasol.

"Rydyn ni'n ymchwilio ac yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn y maes yr ydyn ni'n ei ystyried. Trwy ddangos bod rhywun eisoes yn gwneud rhywbeth tebyg, mae'n haws dangos bod eich syniadau chi'n medru gweithio ac nad ydynt yn hollol wirion."

Dewi Llwyd Evans

Ar adegau, mae gwaith ar draws adrannau wedi arafu'r cynnydd.

Er mwyn sicrhau nad oedd y gwaith ar draws adrannau yn mynd yn angof, cynhaliwyd cyfarfodydd ble'r oedd angen cynrychiolaeth o bob adran.

"Os oes rheolwr gennych sy'n gyfrifol am osod nodweddion newydd ar hen systemau neu am y rhaglen cynnal a chadw, rydych chi am gael y person yna yn y cyfarfod. Weithiau, bu'n rhaid enwebu i sicrhau presenoldeb ond, yn gyffredinol, mae pobl yno am eu bod wedi ymrwymo i wneud i rywbeth ddigwydd."

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Bu'r brwdfrydedd a'r diwylliant a gafodd eu meithrin dros wneud gwahaniaeth yn rhan bwysig o'r cynnydd.

"I bob pwrpas, mae'r pethau yr oedden ni'n dadlau drostynt 10 mlynedd yn ôl yn elfennau cyffredinol nawr fod pobl yn eu deall ac yn gwybod eu bod yn bwysig, ble o'r blaen roedd pobl yn ein gweld ni ychydig yn 'wyrdd' ac yn amgen."

Dysgu

Roedd arwain y blaen yn rhan bwysig o'r ffordd y mae Cymdeithas Tai Eryri'n gweithio ac yn ei galluogi i feithrin perthnasoedd gyda mudiadau eraill yn yr ardal.

"Mae pobl yn ein gweld ni fel arloeswyr yn yr ardal leol ac felly rydyn ni'n aml yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill am i ni wneud pethau'n wahanol."

"Mae gennym bobl sy'n cynhyrchu syniadau ac am geisio rhoi tro ar bethau gwahanol. Cyhyd ag y gallwn ni gyflwyno achos busnes a rhesymeg sy'n gwneud synnwyr, mae uwch reolwyr a'n bwrdd rheoli yn fodlon ei ystyried. Mae'n amgylchedd creadigol ac nid yw heb ei risgiau. Rydyn ni'n fudiad economi cymdeithasol sy'n cael ei rhedeg ar hyd llinellau busnes – mae hyn yn rhoi cyfle i ni ystyried arloesi cyhyd â bod yr achos busnes yn gadarn."

Gwrando ar gymunedau

Bu cronni tystiolaeth ar sail yr hyn y mae cymunedau yn ei ddweud a'i wneud yn rhan hanfodol o'r ffordd y mae Cymdeithas Tai Eryri'n gweithio.

Meddai Dewi Llwyd Evans, "Rydych chi'n dechrau gyda'r hyn y mae gan eich grŵp defnyddwyr ddiddordeb go iawn ynndo, a'u hanghenion. Yr hyn sydd wir wedi helpu ennill y ddadl o ran gosod nodweddion newydd ar hen systemau yw'r ymgynghoriadau gyda chymunedau a digwyddiadau cyfranogiad tenantiaid. Roedd tenantiaid yn yr ardaloedd ble nad oes nwy ar gael yn dweud wrthym eu bod yn casáu gwresogyddion stôr, eu bod yn defnyddio tanau glo a bod ganddynt dai oer, llaith. Gan fod y tenantiaid wedi dweud hyn, yn amlwg roedd yn rhaid i ni wneud rhywbeth am y peth. Roedd gennym rai syniadau yn barod ynghylch y cyfeiriad yr oedden ni am fynd iddo, a, gyda'i gilydd, creodd hyn resymeg gorfforaethol dros wneud yr hyn yr ydyn ni'n ei wneud'.

Mae Cymdeithas Tai Eryri'n darparu tystiolaeth fel rhesymau dros wneud gwaith, yn hytrach na gwneud pethau am resymau ideolegol.

Trosglwyddo ar y tir

Nid yw dogfennau polisi sy'n llawn bwriadau da yn ddigon, meddai Dewi Llwyd Evans, "Mae'r dogfennau polisi yn medru bod yn llawn o'r holl eiriau cywir, ond eto mae ein cyd-weithredoedd yn aml yn bychanu'r dogfennau hyn. Beth bynnag fedra i ei wneud ar lefel leol, mi af i ymlaen i'w wneud. Mae yna berygl mewn mynd o bwyllgor i bwyllgor ac o gyfarfod i gyfarfod yn genedlaethol, heb gyflawni unrhyw beth."

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Manylion Cyswllt a Dolenni

**Dewi Llwyd Evans -
Rheolwr Mentrau Cymunedol**
Dewi@taieryri.co.uk
0300 1234 224

Cymdeithas Tai Eryri
Cynllun Corfforaethol a Gweledigaeth
Astudiaeth achos
Rhaglen 'retro-fit'

“Rwy’n credu y gall y mwyafrif o fudiadau ddod o hyd i rywbeth yn yr agenda cynaliadwyedd. Ydi, fwy na thebyg ei fod yn mynd i gostio mwy, ond holwch beth yw’ch amcanion craidd yn y lle cyntaf? Mae amcanion cymdeithasol yn hanfodol bwysig yn y trydydd sector a’r sector cyhoeddus – yn amlwg, rhaid i gynaliadwyedd fod yn rhan o’r hyn yr ydych chi’n ei drosglwyddo ar eu cyfer.”

Dewi Llwyd Evans

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>